Ysgol Yr Hendre
*Addysgu a Dysgu Gyda'n Gilydd*
Pennaeth / Head-Teacher: Mr Kyle Jones B.Ed. (CPCP)
KyleJones@gwynedd.llyw.cymru

Ffordd Cae Phillips
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2AT
www.ysgolyrhendre.cymru

**Datganiad Gwariant Grant Datblygu Disgyblion Ysgol Yr Hendre**

Diben y Grant Datblygu Disgyblion yw gwella canlyniadau ac llwyddiannau i ddysgwyr sydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. (PYD).

**Diffiniad estynedig o ddefnyddio'r GDD -** "Dylid defnyddio'r GDD i gefnogi anghenion yr holl blant sydd yn neu sydd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y ddwy flynedd flaenorol, neu blant sy'n derbyn gofal. Bwriedir i'r GDD roi cymorth i ddysgwyr sydd o dan anfantais i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal y rheiny o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu potensial yn llawn."

Fel ysgol mae'r GDD yn cael ei ddefnyddio i:

| Meini Prawf | ✓ | X |
|---|---|---|
| Datblygu dulliau llythrennedd a rhifedd cynnar. | ✓ | |
| Y GDD i'w ddefnyddio i gefnogi pob dysgwr cymwys, gan gynnwys disgyblion MATh | ✓ | |
| Tystiolaeth o olrhain disgyblion, adnabod tangyflawniad a defnyddio strategaethau ymyrraeth cadarn; | ✓ | |
| Rhoi blaenoriaeth uchel i ddysgu ac addysgu, adborth o safon uchel a metawybyddiaeth; | ✓ | |
| Sicrhau bod staff cymorth wedi'u hyfforddi i'r radd uchaf a'u bod yn deall yn glir y ddarpariaeth maent yn arwain arni yn yr adnodd cynllunio grant; | ✓ | |
| O leiaf 60% o GDD ysgolion uwchradd i'w fuddsoddi yn nisgyblion cyfnod allweddol 3; | | x |
| Datblygu systemau a phrosesau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion | ✓ | |
| Sicrhau y cyhoeddir pob datganiad GDD ar wefan ysgol / G6. | ✓ | |

Yn ychwanegol i'r uchod rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- gyflogi staff i dargedu grwpiau penodol o ddysgwyr – Dysgwyr PYD / Dysgwyr Mwy Abl a Thalentog / Dysgwyr sy'n tangyflawni o fewn Llythrennedd a Rhifedd.
- gynnig hyfforddiant i staff yr ysgol er mwyn cefnogi grwpiau o ddysgwyr e.e. Cynllun Llofnod Dysgu Teulu / Pivotal Education / Rhaglenni Ymyrraeth a.y.y.b.
- wella cysylltiadau rhwng yr ysgol a theuluoedd trwy gyflwyno'r cynllun Llofnod Dysgu Teulu.

Yn 2019-20 rhoddwyd i Ysgol Yr Hendre ddyraniad Grant Datblygu disgyblion o £108,150. Mae Ysgol Yr Hendre yn defnyddio eu CDY fel dull o gynllunio eu defnydd o'r GDD ac nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.

Ffôn / Phone: (01286) 674332 E-bost / E-mail: post@ysgolyrhendre.cymru